

Yr Archif Wleidyddol Gymreig

CYLCHLYTHYR YR ARCHIF WLEIDYDDOL GYMREIG

YR HYDREF 2010 | RHIF 41

Atgofion Prif Weinidog

Darlith AWG 2010

Dwy Wraig Lloyd George

Yr Athro Deacon

Yr Athro Duncan Tanner

Mr Tom Ellis

Papurau'r Arglwydd Temple-Morris

Statws y Cenedloedd Unedig

David Lloyd George a
Rhyddfrydiaeth Cymreig

Darith gan Roy Hattersley

Papurau Seneddol Prydeinig ar-lein

Y Bywgraffiadur ar-lein

Etholiad Cyffredinol 2010

Derbyniadau

Yr Arglwydd Anderson o Abertawe

The Living

Papurau Alun Burge

Llyfrau nodiadau Lloyd George

Papurau Goronwy Rees

Atgofion Prif Weinidog

Yn unol â'r disgwyl, daeth cynulleidfa niferus ynghyd yn y Drwm o fewn y Llyfrgell Genedlaethol ar nos Wener, 6 Tachwedd 2009, i glywed y Gwir Anrh. Rhodri Morgan AC yn traddodi darlith flynyddol yr AWG ar y thema ddi-ddorol 'Deng Mlynedd o Ddatganoli: Atgofion Prif Weinidog'. Roedd y ddarlith o ddi-ddordeb arbennig gan mai dyma un o ymrwymadau ffurfiol olaf y Prif Weinidog cyn iddo ymdeol o'i swydd.

Mewn darlith dreiddgar, cymerodd Mr Morgan fel thema 'datblygiad anghymesur datganoli o fewn y Deyrnas Unedig'. Yn ei farn ef roedd y gefnogaeth a ddatblygodd i ddatganoli yng Nghymru erbyn 1997 yn bennaf yn ganlyniad i 'Undebaeth unochrog' Margaret Thatcher. 'Ar ôl dwy flynedd ar bymtheg o reolaeth gan Lywodraethwyr-Cyffredinol oedd yn cynrychioli, ymhlith ardaloedd eraill, Caerwrangon, Cilgwri a Wokingham yn y Tŷ Cyffredin, dymuniad etholwyr Cymru oedd sicrhau polisi yswiriant pendant yn erbyn y fath ddigwyddiad eto, a'r polisi yswiriant hwnnw oedd y Cynulliad'.

Yna aeth ati i amddiffyn yn rymus record y Cynulliad Cenedlaethol ers ei sefydlu ym 1999, gan ddadlau iddo gyfiawnhau ei fodolaeth yn llwyr yn ystod y deng mlynedd ganlynol. Yn ei farn ef rhoddodd y dirwasgiad diweddar i'r Cynulliad 'prawf hyd yn oed yn fwy o'n gallu i arwain Cymru drwy ddyfroedd tymhestlog'.

Fel prawf o hyn, cyfeiriodd y siaradwr at gynnal cyfres o gynadleddau economaidd a fu'n rhyfeddol o lwyddiannus; y penderfyniad i roi blaenoriaeth i fesurau iechyd sylfaenol, cyhoeddus a rhwystrol; ac yn y byd addysg mabwysiadu'r model radical Scandinafaidd o ddysgu-drwy-chwarae yn hytrach na dysgu-drwy-ddysgu. Hefyd pwysleisiodd Rhodri Morgan y pwynt fod sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol yn ei hunan yn 'gam anferthol ymlaen lle mae bod yn gynhwysol yn y cwestiwn'. Pwysleisiodd ei natur ddwyieithog,



Rhodri Morgan yn darlithio yn y Drwm

ac mor hawdd oedd i'r cyhoedd ymgynghori ag Aelodau'r Cynulliad. Gan mai dim ond naw aelod oedd yn y Cabined, roedd ymgynghori a chynnal cyfarfodydd, ffurfiol ac anffurfiol, gymaint yn haws.

Roedd y darlithydd yn rhagweld dyfarnu pwerau ehangach i'r Cynulliad yn y dyfodol agos gan i 'bobl Cymru ddatblygu ymddiriedaeth ynghylch gallu Cymru i gynnal ei agenda mewnol heb greu anrhefn. ... Os yw dinasyddion Cymru o'r farn ein bod yn defnyddio'n pwerau ar hyn o bryd ac yn eu gwasanaethu'n dda, byddant yn barod i gefnogi pwerau pellach'.

Daeth darlith Mr Morgan i ben drwy danlinellu ei gred 'i lwyddiant datganoli ers 1999 arddangos cryfder rhyfeddol y traddodiad pragmataidd y dylem oll ei ddathlu. ... Mae ein datganoli anghymesur yn ddathliad o'n Prydeindod a'n hagwedd bragmataidd at gario'r cyhoedd gyda ni yn ddathliad o Gymreictod'.

Cyhoeddwyd testun y ddarlith ar wefan LIGC ar yr adran ar yr Archif Wleidyddol Gymreig.

Darlith Flynyddol yr Archif Wleidyddol Gymreig 2010

'Iwerddion 1916; Rwsia 1917; Cymru?; graffiti Aberystwyth circa 1978', Dr Hywel Francis AS.
Drwm, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Gwener, 5 Tachwedd 2010, 5.30 p.m.

Dwy Wraig Lloyd George

Ym mis Medi 2009 bu S4C yn darlledu rhaglen ddogfen uchelgeisiol, a gyflwynwyd gan Ffion Hague, yn dadansoddi'r gyd-berthynas gymhleth rhwng David Lloyd George, a'i ddwy wraig y Fonesig Margaret a'i gyn-feistress Frances Stevenson, yn ddiweddarach larlles Lloyd-George. Roedd y rhaglen yn cynnwys cyfweiliad gyda Dr J. Graham Jones, Pennaeth yr Archif Wleidyddol Gymreig yn LIGC, a ddisgrifiodd rhai o'r llythyrau oddi wrth Lloyd George at y Fonesig Margaret a deunydd arall a geir yn archifau Lloyd George sydd yng ngofal y Llyfrgell.

Roedd y rhaglen hynod dddidorol hefyd yn cynnwys y cyfweiliad teledu cyntaf erioed gyda Jennifer Longford, merch Frances Stevenson, a anwyd ym mis Hydref 1929. Gwelwyd hefyd taith o amgylch rhif 10 Stryd Downing a arweiniwyd gan Sarah Brown, gwraig y Prif Weinidog ar y pryd. Gwnaed llawer iawn o'r ffilmio yng Nghriccieth a Llanystumdwy, ac un gyfres ar Ynys Enlli, lle, yn ystod trip y capel ym 1885, llwyddodd y cyfreithiwr ifanc David Lloyd George i ganlyn o ddirif am y tro cyntaf Maggie Owen, unig ferch y teulu cefnog Owen o Fynydd Ednyfed Fawr, Criccieth.

Gyda'i harbenigedd proffesiynol arferol, dangosodd Ffion Hague sut y daeth y ddwy wraig i gynnig cefnogaeth emosiynol a gwleidyddol sylweddol i Lloyd George. Daethant hefyd fel unigolion i gynrychioli patrymau ar gyfer merched yn ystod hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif ym Mhrydain.

Yr Athro Duncan Tanner

Roedd pawb sydd yn gysylltiedig â'r AWG yn flin dros ben i glywed am farwolaeth ddechrau Chwefror, ac yntau ond yn 51 mlwydd oed, yr Athro Duncan Tanner, Adran Hanes, Prifysgol Bangor. Ac yntau'n awdurdod ar hanes Llafur a hanes gwleidyddol, cyhoeddodd yn helaeth ac fe'i ystyrir yn un o'n prif awdurdodau ar hanes datganoli yng Nghymru. Ym 1990 enillodd Wobr Whitfield y Gymdeithas Hanes Frenhinol am ei gyfrol gyntaf *Political Change and the Labour Party, 1900-1918* (1990). Bu hefyd yn gyd-olygydd pedwar lyfr pellach sef *The Labour Party in Wales 1900-2000* (2000), *Labour's First Century* (2000), *Debating Nationhood and Governance in Britain, 1885-1945* (2006) a *The Strange Survival of Liberal England* (2007). Yn ogystal â bod yn Athro Hanes ym Mangor, roedd hefyd yn Gyfarwyddwr Ymchwil yn y Brifysgol ac yn Gyfarwyddwr Sefydliad Cymreig Materion Cymdeithasol a Diwylliannol.

Gwasanaethodd Duncan fel aelod o bwyllgor ymgynghorol yr AWG ers 2002, mynychodd y pwyllgorau'n rheolaidd a chyfrannodd at y trafodaethau mewn dull positif ac adeiladol. Cyflwynodd hefyd i ofal y Llyfrgell papurau gwerthfawr a gasglodd yn ystod ei ymchwil i hanes datganoli yng Nghymru'r ugeinfed ganrif. Dr Andrew Edwards, aelod o'r un adran, fydd olynydd Duncan ar ein pwyllgor.



Tom Ellis

Roeddem hefyd yn drist iawn i glywed am farwolaeth dechrau Ebrill o gyn AS Wrecsam, Tom Ellis, yn 86 mlwydd oed. Etholwyd Tom Ellis yn AS Llafur dros yr etholaeth ym 1970, ond ym 1981 daeth yn un o sylfaenwyr o Blaid Ddemocrataidd Gymdeithasol, a pharhaodd yn uchel ei barch gan y 'giang o bedwar' a sefydlodd y blaid newydd. Collodd ei sedd ym 1983 pan safodd fel ymgeisydd ar ran ei blaid newydd yn etholaeth De Orllewin Clwyd pan ddaeth yn ail i ymgeisydd y Ceidwadwyr. Cyn mynd i'r Senedd, bu Mr Ellis yn rheolwr pwll glo Bersham a phwll glo'r Hafod ger Wrecsam. Yn 2003 cyhoeddodd cyfrol ddifur o hunangofiant *Dan Loriau Maelor*.

Yn 2004 dewisodd ymdeol fel aelod o bwyllgor ymgynghorol yr AWG lle bu'n aelod cydwybodol am nifer o flynyddoedd.

David Lloyd George a Rhyddfrydiaeth Gymreig

Mewn cyfarfod o Gyfeillion y Llyfrgell a gynhaliwyd yn y Drwm yn y Llyfrgell Genedlaethol ar brynawn Sadwrn, 26 Mehefin 2010, roedd Ffion Hague yn bresennol i lansio cyfrol sylweddol, yn cynnwys dim llai na 610 tudalen, sef *David Lloyd George and Welsh Liberalism*. Yr awdur yw Dr J. Graham Jones, ar hyn o bryd Pennaeth yr Archif Wleidyddol Gymreig, ac aelod o staff LIGC ers dros ddeng mlynedd ar hugain. Drwy gydol y cyfnod hwn gwnaeth ddefnydd helaeth o'r saith archif bwysig sy'n ymwneud â Lloyd George ymhlith daliadau'r Llyfrgell ynghyd ag archifau eraill sydd ar gael yno er mwyn ymchwilio i yrfa Lloyd George.

Ceir o fewn y gyfrol wyth-ar-hugain o erthyglau'n ymdrin â gwahanol agweddau ar fywyd a gyrfa hollol unigryw Lloyd George, gydag ysgrif ar y Blaid Ryddfrydol yng Nghymru ar ôl yr Ail Rhyfel Byd a dwy erthygl ar yrfaedd gwleidyddol dau blentyn Lloyd George sef y Fonesig Megan a'r Uwch-gapten Gwilym, y ddau ohonynt yn cynrychioli etholaethau Cymreig.

Daeth dros gant o unigolion ynghyd yn y Llyfrgell i glywed annerchiadau byr gan Dafydd Wigley, Llywydd LIGC, a chyn AS Plaid Cymru dros sir Gaernarfon, a chan Ffion Hague, hithau hefyd yn awdur cyfrol nodedig ar fywyd personol Lloyd George sef *The Pain and the Privilege*, a gyhoeddwyd gan Harper Books yn 2008. Yno traddododd Graham Jones ddarlith i Gyfeillion y Llyfrgell ar 'Briodas Lloyd George a Frances Stevenson', a ddiwyddodd yn Arlington House, Swyddfa Cofrestru Guildford ar 23 Hydref 1943. Cyhoeddir testun llawn y ddarlith mewn rhifyn o'r *Journal of Liberal History* yn y dyfodol agos.

Gellir sicrhau copïau o'r gyfrol oddi wrth y Llyfrgell Genedlaethol am £24.99, neu £22.49 i aelodau o'r staff a Chyfeillion y Llyfrgell. Gellir hefyd archebu copïau drwy siopau llyfrau safonol.



Graham Jones, Ffion Hague a Dafydd Wigley yn y lansiad.

Etholiad Gyffredinol 2010

Fel ar nifer o achlysuron cynt, gwnaeth yr Archif Wleidyddol Gymreig ddefnydd da o'i rhwydwaith eang o gysylltwyr ledled Cymru er mwyn casglu ynghyd set bron yn gyflawn o'r annerchiadau etholiad, taflenni a phosteri a gylchredwyd drwy'r etholaethau Cymreig yn ystod ymgyrch etholiad cyffredinol Mai 2010. Erys bylchau yn ein casgliad ar gyfer etholaethau Islwyn a Llanelli yn unig. Os oes modd i ddarlennwyr *Cylchlythyr yr AWG* ein cynorthwyo i lenwi'r bylchau hyn, byddwn yn wir ddiolchgar. Bwriedir rhestrï'r deunydd hwn a'i ychwanegu fel cyfres BA8 at y Casgliad Effemera Gwleidyddol.

Drwy gydweithrediad parod pencadlysoedd Cymreig y pleidiau gwleidyddol yng Nghaerdydd, llwyddwyd i gasglu manifestos Cymreig a chyhoeddiadau cenedlaethol eraill y pleidiau. Y bwriad yw digido'r holl ddeunydd hwn yn y dyfodol agos ac yna ei osod ar wefan y Llyfrgell. Bwriedir gwneud hyn hefyd ar gyfer etholiadau'r dyfodol yng Nghymru.

Gwnaed pob ymdrech hefyd i archifo, yn ystod yr ymgyrch etholiad a'r cyfnod cyn hynny, safleoedd we y pleidiau gwleidyddol Cymreig ynghyd â safleoedd we personol neu flogiau rhai o'r ymgeiswyr amlycaf ac unigolion eraill blaenllaw ym mywyd gwleidyddol Cymru.

Bu staff Archif Sgrin a Sain Genedlaethol Cymru wrthi'n ddiwyd yn recordio rhaglenni teledu a radio perthnasol, rhaglenni dogfen, darllediadau gwleidyddol a rhaglenni newyddion a ddarlledwyd drwy gydol yr ymgyrch etholiad. Ceir ynddynt wledd o ddeunydd difyr.

Yr Athro Deacon

Estynnwn ein llongyfarchion a'n dymuniadau gorau i'r Dr Russell Deacon, Darlennydd mewn Gwleidyddiaeth a Llywodraeth Cymru yn Sefydliad Caerdydd, wedi iddo dderbyn cadair bersonol. Bu Russell yn aelod gweithgar o bwyllgor ymgynhorol yr AWG yn ystod y blynyddoedd olaf hyn. Daeth i amlygrwydd academiaidd yn bennaf fel canlyniad i'w gyhoeddiad seminal *The Governance of Wales: the Welsh Office and the Policy Process, 1964-99* (2002), ac ar hyn o bryd disgwyli'r cyhoeddi ei astudiaeth arloesol ar hanes y Blaid Ryddfrydol yng Nghymru'r ugeinfed ganrif.

Statws UNESCO i Ffilm am Lloyd George

Mae deg o eitemau a chasgliadau wedi'u dewis i fod y rhai cyntaf ar restr treftadaeth o ddogfennau eithriadol yn y Deyrnas Unedig ac yn eu plith mae ffilm na chyhoeddwyd erioed am David Lloyd George, *(The Life Story of David Lloyd George)* y Rhyddfrydwr olaf i fod yn Brif Weinidog, a chasgliad Llawysgrifau Peniarth. Mae casgliadau'r Llyfrgell ymysg deg eitem buddugol yn dod o bob cwr o'r wlad, ac yn cwmpasu bron i 1000 o flynyddoedd o hanes gan grynhai cyfnodau ac adegau hanfodol bwysig yn natblygiad y Deyrnas Unedig.

Papurau'r Arglwydd Temple-Morris

Bu'r Arglwydd a'r Fonesig Temple-Morris yn ymweld â'r Llyfrgell ar 1 Hydref 2009. Etholwyd Peter Temple-Morris i'r senedd fel yr AS Ceidwadol dros Leominster yn Chwefror 1974, ond ymunodd a'r Blaid Lafur ym 1998. Ymdeolodd o'r senedd yn 2001. Cyn hynny safodd fel yr ymgeisydd Ceidwadol dros etholaeth Casnewydd yn etholiadau cyffredinol 1964 a 1966. Cyflwynodd yr Arglwydd Temple-Morris i ofal y Llyfrgell rhai ffeiliau o bapurau diddorol yn ymdrin â'i ymgyrchoedd etholiadol yng Nghymru a'i ymdrech i ddarganfod etholaeth yn Lloegr ar ôl hynny. Mae ffeiliau eraill yn ymwneud a Leominster, yr Inter-Parliamentary Union, Iran, pwnc Iwerddon, a materion mewnol y Blaid Geidwadol yn ystod arweinyddiaeth Margaret Thatcher. Ceir hefyd ohebiaeth a nodiadau areithiau, papurau cynadleddau'r blaid a deunydd etholiadol.



Yn derbyn y wobwr: Nia Mai Daniel, Maredudd ap Huw a John Reed

Darlith gan Roy Hattersley

Ar nos Iau, 23 Medi 2010, bydd yr Arglwydd Hattersley yn traddodi darlith gyhoeddus yn y Drwm o fewn y Llyfrgell Genedlaethol ar y thema 'Lloyd George: the Great Outsider'. Yr wythnos cyn hynny bydd yn lansio ei gofiant sylweddol un-gyfrol i Lloyd George, wedi ei gyhoeddi gan gwmni Little Brown. Fel rhan o'i ymchwil, gwnaeth yr Arglwydd Hattersley ddefnydd o archifau helaeth Lloyd George sydd yng ngofal LIGC. Dyma'r bywgraffiad un-gyfrol cyntaf i Lloyd George ers ymddangosiad cofiant anferthol Peter Rowland a welodd olau dydd ym 1975. Yn sicrhoddir croeso arbennig i'r llyfr newydd. Mae'r ddarlith yn agored i'r cyhoedd.

Gellir archebu tocynnau (pris £10 yr un) o siop y Llyfrgell (rhif ffôn (01970 632548) neu ar-lein.



Papurau Seneddol Prydeinig ar-lein

Mae'r Llyfrgell Genedlaethol bellach yn tanysgrifio i Bapurau Seneddol Prydeinig ar-lein. Gyda'r holl gasgliadau bellach wedi eu digido, mae Papurau Seneddol Tŷ'r Cyffredin yn cynnwys dros 200,000 o bapurau sesiynol y Tŷ Cyffredin o 1715 hyd at y presennol, gan gynnwys deunydd ychwanegol yn dyddio nôl i 1688. Mae HCPP yn darparu delweddau o bob tudalen unigol ynghyd â'r testun llawn ar gyfer pob tudalen a hefyd mynegai manwl ar eu cyfer.

Y Bywgraffiadur ar-lein

Mae'r Bywgraffiadur Ar-lein yn cyflwyno bywydau Cymry amlwg a wnaeth gyfraniad pwysig i fywyd Cymru. Fersiwn electronig yw hwn o'r cyfrolau a gyhoeddwyd gan *Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*, ynghyd ag erthyglau newydd a gomisiynwyd gan y Gymdeithas. Mae testun llawn y pum cyfrol brintiedig, ynghyd ag erthyglau newydd, wedi eu trosi i mewn i un gronfa-ddata electronig ddwyieithog.

Ymhlith y cofnodion niferus a ddarperir ar gyfer unigolion o'r cyfnod ar ôl 1970 mae llawer ar gyfer gwleidyddion blaenllaw. Yn eu plith mae Desmond Donnelly, James Griffiths, Ian Grist, Tom Hooson, Goronwy Roberts, George Thomas (Arglwydd Tonypany), ac Eirene White. Mae papurau pob un o'r gwleidyddion hyn yng ngofal yr Archif Wleidyddol Gymreig.

Derbyniadau

Ymhlith derbyniadau eraill a ddaeth i law yn ystod y flwyddyn mae:

Papurau Clymblaid Genedlaethol Merched

Cymru: cofnodion, 2002-10, y corff o'i sefydlu hyd at ei ddiwedd, gan gynnwys cofnodion cyfarfodydd, adroddiadau, papurau'r cyfarfodydd blynyddol, a ffotograffau. Maent yn ymddrin â chydraddoldeb i ferched, hawliau dynol i ferched a chyfluoedd cyfartal ar gyfer merched Cymru.

Dr Siroi Colley, Nottingham: papurau pellach ei hewythr **Gareth Vaughan Jones** (1905-35) a'i rieni yntau yr Uwch-gapten Edgar Jones a'i wraig Mrs Annie Gwen Jones. Maent yn cynnwys dyddiadur enwog Gareth Jones ar gyfer 1933 sy'n disgrifio ei ymweliad â Hitler.

Albwm bychan o ffotograffau o **Lloyd George, Howard de Walden, A. J. Sylvester** ac eraill.

CND Cymru: grŵp ychwanegol sylweddol o gofnodion oddi wrth Jill Gough, ysgrifenyddes y mudiad.

Mr Ben Gregory: grŵp ychwanegol o gofnodion **Ymgyrch Cefnogi Nicaragua**, 1997-2008, gan gynnwys gohebiaeth, cyhoeddiadau, datganiadau i'r wasg a thorion papur newydd.

Cludwaith mawr wedi ei fframio yn dangos yr ASau Cymreig yn ystod diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed.

Canolfan Adnoddau Dysgu, Prifysgol Morgannwg: grŵp bychan o gyhoeddiadau ac eitemau printiedig yn ymwneud a **gwleidyddiaeth Cymru, cenedlaetholdeb, datganoli** etc.

Mr Dafydd Wigley: rhifynnau, 1976-79, o Gyswllt: y Blaid yn San Steffan: Plaid at Westminster.

Mr Llŷr Huws Griffiths, Ruthun: amrywiaeth ddiddorol o gyhoeddiadau yn ymddrin â **datganoli yng Nghymru**.

Yr Arglwydd Anderson o Abertawe

Cyflwynodd yr Arglwydd Anderson i ofal LIGC grŵp bychan o bapurau gwleidyddol, llawer yn ymddrin â thrafodaethau'r Ymchwiliad Hutton i farwolaeth y Dr David Kelly. Mae dwy ffeil yn ymwneud â Mr Leo Abse (1917-2008), yr AS Llafur dros etholaeth Pontypwl o 1958 hyd at 1983 ac wedi hynny etholaeth Torfaen hyd ei ymddeoliad ym 1987. Y gobaith yw y bydd papurau pellach yn dilyn yn y fan.



Dr Siroi Colley a'i mab Nigel yn Ll.G.C.

The Living

Am 13:15 ar ddydd Mawrth, 19 Ionawr 2010, bu Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn dangos ffilm am hanes y newyn mawr a geisiodd Stalin ei guddio, ond roedd un newyddiadurwr o Gymru, Gareth Vaughan Jones, yn ddigon dewr i'w arddangos. Roedd ei nith sef Dr Siroi Colley, Nottingham, a'i mab hithau Nigel yn bresennol yno.

Mae'r ffilm 'The Living' yn adrodd stori digwyddiadau trychinebus yn yr Wcráin yn ystod 1932-33 ac ymdrechion un Cymro i hysbysu'r byd o'r hyn oedd yn digwydd. Mae'n cynnig ongl newydd ar y newyn a grëwyd gan Stalin fel y mae brodorion o'r Wcráin, unigolion a fu'n dystion i'r miliynau a fu farw a'r miliynau pellach a ddiodefodd yn erchyll, yn adrodd eu straeon hynod o drist.

Ochr ag ochr a'u straeon hwy, ceir hanes Gareth Jones y newyddiadurwr o Gymru. Teithiodd yntau drwy'r Wcráin, ar drenau ac ar droed, i ddarganfod dros ei hun yr hyn oedd y bobl yn dioddef. Cyhoeddodd Jones nifer o erthyglau mewn papurau newydd Prydeinig yn tynnu sylw at brinder hyd yn oed y bwydydd sylfaenol yn yr Wcráin, rhanbarth a fu'n gyfoethog ychydig cyn hynny, ac adroddodd am y dioddefaint a'r marwolaethau. Ond ar y cyfan cael ei anwybyddu a wnaeth a hyd yn oed ei wawdio am awgrymu'r fath bethau. Cafodd Gareth Jones ei lofruddio ym 1935 ym Manchukuo, ac ym marn rhai roedd ei farwolaeth anhymig yn 29 oed yn ganlyniad i ddialedd y Rwsiaid oherwydd parodrwydd Gareth Jones i dynnu sylw at eu gweithgareddau.

Heddiw mae llywodraeth yr Wcráin, a gomisiynodd y ffilm i nodi 75 mlynedd ers yr Holodomor, yn awyddus i anrhydeddu ymdrechion Gareth Jones i hysbysu'r byd er i neb wrando arno. Daeth y criw ffilmio o'r Wcráin, a'u cyfarwyddwr Serhiy Bukovsky, i Gymru ar gyfer y ffilmio. Aethant i dref enedigol Gareth Jones sef y Barri, ac i Aberystwyth, lle bu Gareth Jones yn fyfyrwr yn y 1920au, ac i'r Llyfrgell Genedlaethol lle cedwir nifer o'i papurau.

Papurau Alun Burge

Cyflwynodd Mr Alun Burge, aelod egniol o bwyllgor ymgynghorol yr AWG ers 2002, archif sylweddol o bapurau yn adlewyrchu ei weithgarwch o fewn gwleidyddiaeth de Cymru dros nifer fawr o flynyddoedd. Mae'n debyg mai'r mwyaf arwyddocaol yw rhai sydd yn ymddrin â'r Pwyllgor Cydgysylltu Llafur ac sydd yn cynnwys deunydd diddorol ar swyddogaeth Ron Davies, Wayne David, Andrew Davies a Sue Essex. Mae papurau pwysig eraill yn ymwneud a rôl y Blaid Gomiwnyddol yn ne Cymru, pwyllgor gwaith y Blaid Lafur yng Nghymru, Cyngor Masnach Dinas Caerdydd (grŵp arwyddocaol o bapurau), Plaid Lafur Bedwellty, Militant ac International Perspectives.

Ceir hefyd papurau'n deillio o ymgyrch Na 1979, ymgyrch le dros Gymru ym 1997 a rhai defnyddiau etholiadol. Ni fydd modd i ddarllenwyr weld y papurau hyn tan 1 Ionawr 2017.

Llyfrau nodiadau Lloyd George

Roedd y Llyfrgell yn arbennig o falch o fedru prynu yn ddiweddar chwe llyfryn nodiadau bychan yn cynnwys nodiadau a wnaed gan David Lloyd George yn bennaf yn ystod cyfnod yr Ail Ryfel Byd. Ceir ynddynt ei sylwadau ar gwrs y rhyfel ac ar adegau cymariaethau gydag ymgyrch rhyfel y Cynghreiriaid yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Ceir hefyd fanylion am ffermio Lloyd George a'i ddatblygiad o'i ystâd helaeth ym Mron-y-de ger Churt yn swydd Surrey. Yn anffodus, mae llawysgrifen Lloyd George erbyn y 1940au braidd yn anodd ei ddehongli. Ceir ynddynt hefyd ychydig o nodiadau, a'r rheiny'n fwy darllenadwy, yn llaw ei ysgrifenyddes a'i feistres Frances Stevenson. Eu cyfeirnod erbyn hyn yw NLW ex 2691.

Papurau Goronwy Rees

Lluniwyd rhestr o'r grŵp bychan o bapurau Goronwy Rees (1909-79), prifathro Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, o 1953 tan fe'i ofodwyd i ymddiswyddo ym 1957. Ceir ynddynt ohebiaeth, erthyglau, llyfrau nodiadau a ffotograffau. Maent yn ymddrin yn bennaf â gwaith llenyddol Goronwy Rees, ei ymddiswyddiad fel Prifathro CPC, a'i gysylltiadau â Chylch Ysbwywr Caergrawnt ac ysbio yn Rwsia. Ceir yn y Llyfrgell hefyd papurau Ymchwiliad Goronwy Rees yn dyddio o 1956-57.